

Amgueddfa Cymru

Polisi Rheoli Casgliadau

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Fframwaith Rheoli Casgliadau Amgueddfa Cymru yn cynnwys cyfres o strategaethau, polisiau a gweithdrefnau sy'n egluro sut fyddwn ni'n datblygu, rheoli a gofalu am ein casgliadau. Mae'r polisi'n rhoi manylion y dibenion, yr egwyddorion a'r strwythurau sydd gan yr Amgueddfa er mwyn rheoli ei chasgliadau. Mae'n darparu gwybodaeth, gan gynnwys y fframweithiau cyfreithiol a moesegol, sy'n sail i'r polisi rheoli casgliadau ledled y sefydliad.

1.2 Mae Amgueddfa Cymru'n cadw casgliadau sylweddol a hynod amrywiol sydd wedi'u datblygu ers ei sefydlu ym 1907. Y diben yn ôl Siarter Brenhinol 2006 yw: 'hyrwyddo addysg y cyhoedd...drwy ddarlunio'n gyflawn wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, ac yn gyffredinol, drwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hyrwyddo gwella dealltwriaeth a hybu ymchwil'.

1.3 Yr Amgueddfa yw prif storfa deunyddiau tri dimensiwn sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru a deunyddiau rhyngwladol sy'n helpu i ddiffinio lle Cymru yn y byd. Ar hyn o bryd, mae'r casgliad yn cynnwys tua phum miliwn o eitemau yn amrywio ar draws hanes cymdeithasol a diwydiannol, archaeoleg, celf a'r gwyddorau naturiol gan gynnwys arteffactau, sbesimenau gwyddonol, paentiadau, printiau a darluniau, archifau papur, asedau digidol, ffotograffau, recordiadau a chyhoeddiadau.

1.4 Cedwir yr eitemau yn y casgliadau er budd pobl Cymru ac maent yn bodoli er lles cymdeithas. Maen nhw wrth galon ein gwasanaethau i'r cyhoedd, ac yn cael eu defnyddio gan ein staff er mwyn galluogi'r profiad o amgueddfa, y profiad ar-lein, addysg, ymchwil, cymryd rhan a'n cyfraniad ni at wneud gwahaniaeth i Gymru. Byddai'r rhain yn cynnwys eu defnyddio'n allanol mewn ffyrdd cynyddol ehangach er mwynhad, addysg, ysbrydoliaeth, ymchwil a darganfod. O'r herwydd, maen nhw'n rhan hanfodol o rôl yr Amgueddfa a seilwaith diwylliannol a gwyddonol y genedl.

2. Diben

2.1 Mae gweledigaeth deng mlynedd yr Amgueddfa – *Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau* – yn cyflwyno ffocws a blaenoriaethau clir ar gyfer holl weithgareddau'r sefydliad. Gan fod y casgliadau'n gwneud cyfraniad allweddol i'r gweithgareddau hyn, mae'r polisi'n cyflwyno fframwaith clir ar gyfer rheoli'r casgliadau er mwyn ein helpu i ddiwallu anghenion ein rhaglenni, defnyddwyr a phartneriaid. Hefyd, bydd o gymorth i reoli'r gofynion newidiol yn sgil llai o adnoddau ar gyfer caffael a gofalu am gasgliadau, cyd-gynhyrchu a chyd-gasglu â chymunedau, blaenoriaethau newydd ar gyfer arddangos, a disgwyliadau'r cyhoedd sy'n newid yn gyflym o ran darpariaeth ddigidol.

2.2 Mae Amgueddfa Cymru yn Amgueddfa Achrededig. Gweinyddir y Cynllun Achredu gan Gyngor Celfyddydau Lloegr sy'n gosod safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer amgueddfeydd y DU. Mae'r polisi'n cyflwyno fframwaith sy'n esbonio sut fydd yr Amgueddfa yn bodloni ei rhwymedigaethau o ran rheoli casgliadau yn unol â'r cynllun hwn.

3. Diffiniad

3.1 Mae rheoli casgliadau yn broses weithredol a pharhaus sy'n golygu bod yr Amgueddfa'n cyflawni ei rhwymedigaethau o ran ei chasgliadau yn unol â diffiniad y Siarter. Mae'n galluogi'r Amgueddfa i fodloni'i chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol a chyflwyno arferion gorau fel ein bod ni'n gwybod beth sydd gennym a ble y mae, ac yn gallu gofalu amdano er mwyn hwyluso mynediad a defnydd cynaliadwy.

4. Amcanion Rheoli Casgliadau

4.1 Dyma'r amcanion ar gyfer rheoli casgliadau:

- Cynllunio ar gyfer datblygu casgliadau cynaliadwy
- Cynllunio ar gyfer gofalu am gasgliadau'n gynaliadwy
- Hwyluso dealltwriaeth o gasgliadau a gwybodaeth amdanynt, rheoli mynediad a'r defnydd ohonynt.
- Sicrhau atebolrwydd trwy gydymffurfio â chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol
- Cefnogi enw da a statws yr Amgueddfa fel amgueddfa genedlaethol trwy gydymffurfio â meincnodau allanol fel PAS197 ac 198 a gofynion y Cynllun Achredu.

5. Perthnasedd

5.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl adrannau casglu'r Amgueddfa sydd â'r awdurdod dirprwyedig i gaffael, rheoli a defnyddio'r casgliadau a gwybodaeth am gasgliadau. Rhaid i holl staff yr Amgueddfa yn ogystal ag ymchwilwyr, gwirfoddolwyr, internau ac eraill â chyfrifoldebau dirprwyedig dros reoli casgliadau neu fynediad i'r casgliadau, gydymffurfio â'r strategaethau, polisiâu, gweithdrefnau ac arferion rheoli casgliadau sydd wedi'u pennu yn y ddogfen hon a'r holl ddogfennau cysylltiedig sydd, gyda'i gilydd, yn creu Fframwaith Rheoli Casgliadau'r Amgueddfa.

5.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gasgliadau'r Amgueddfa, sy'n perthyn i'r categorïau canlynol:

- Casgliadau wedi'u derbyn yn barhaol: eitemau o arwyddocâd sylweddol ar gyfer ymchwil a/neu arddangos neu sy'n cael eu hystyried yn bwysig eu gwarchod fel rhan o, neu mewn perthynas â, threftadaeth naturiol neu ddiwylliannol Cymru. Disgwylir i eitemau wedi'u derbyn i'r casgliadau parhaol gael eu cadw am gyfnod amhenodol. Mae'r casgliad parhaol yn cynnwys casgliadau ategol, ac mae dau fath o'r rhain ar gael:

- Eitemau nad ydynt yn ddeunyddiau casgliad eu hunain, ond sy'n ategu eitem o'r casgliad, megis dogfennau.
- Casgliadau o asedau digidol, modelau neu ddeunyddiau archif sy'n cynrychioli'r eitemau.
- Eitemau i'w derbyn: eitemau sy'n rhan o waith prosesu deunyddiau sy'n aros i gael ei wneud, deunyddiau a fydd yn rhan o'r casgliad parhaol maes o law e.e. eitemau wrth dderbyn gwrthrych, darpar bryniadau.
- Eitemau sydd ym mherchnogaeth trydydd parti ac sy'n rhaid eu cynnal yn unol â'r cytundeb e.e. benthyciadau i mewn.

5.3 Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i eitemau nad ydynt yn addas i'w cynnwys yn y casgliad sydd wedi'i dderbyn yn barhaol oherwydd cytundeb, nam, dyblygiad neu ystyriaeth arall sy'n golygu eu bod ar gael i'w trin a'u trafod/at ddefnydd addysgol, samplu, cyfnewid a difrodi.

6. Awdurdod a Chyfrifoldebau

Mae caffael a chadw casgliadau yn rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol a moesegol i reoli, cadw a defnyddio'r casgliadau a'u gwybodaeth gysylltiedig mewn modd priodol. Mae'r awdurdod a'r cyfrifoldeb am reoli casgliadau yn Amgueddfa Cymru wedi'u dirprwyo fel a ganlyn:

6.1 Ymddiriedolwyr:

- Sicrhau bod fframwaith priodol a strategaethau a pholisïau ar waith er mwyn dangos atebolrwydd priodol i rwymedigaethau'r Siarter a'u dehongliad cyfoes trwy ddogfennau'r Weledigaeth, cynlluniau strategol a gweithredol ac ati.
- Fel rhan o'u rôl eirioli, hyrwyddo'r Amgueddfa fel canolfan ragoriaeth o ran gofal a rheoli casgliadau.

6.2 Cyfarwyddwyr

- Cymeradwyo strategaethau, polisïau a chynlluniau, gan gynnwys mesurau perfformiad sy'n sicrhau cynaliadwyedd y casgliad cenedlaethol a'r sylfaen wybodaeth gysylltiedig.
- Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael er mwyn galluogi gwaith gofal a rheoli casgliadau heb ei ail.

6.3 Ceidwaid

- Datblygu strategaethau, polisïau a chynlluniau ar gyfer gofal a rheoli casgliadau gan gynnwys mesurau perfformiad.

- Monitro'r cynnydd yn erbyn cynlluniau.
- Cymeradwyo gweithdrefnau.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â strategaethau, polisiau a gweithdrefnau.
- Dyrannu adnoddau fel bod gwaith rheoli casgliadau yn bodloni arferion gorau a'r safonau perthnasol.

6.4 Grŵp Gofal a Rheoli Casgliadau

- Cynghori ar strategaethau, polisiau a mesurau perfformiad.
- Datblygu ac adolygu gweithdrefnau.
- Monitro cydymffurfiaeth â strategaethau, polisiau a gweithdrefnau.
- Cefnogi arferion gorau o ran gofal a rheoli casgliadau trwy roi hyfforddiant i'r staff casgliadau a staff eraill nad ydynt yn ymwneud â chasgliadau.

6.5 Staff casgliadau

- Cyflawni gweithgareddau gofal a rheoli casgliadau yn unol â strategaethau, polisiau a gweithdrefnau.
- Sicrhau bod myfyrwyr, internau, gwirfoddolwyr, Cymrodorion Ymchwil Anrhydeddus ac ati yn gweithio'n unol â strategaethau, polisiau a gweithdrefnau.

6.6 Staff nad ydynt yn ymwneud â chasgliadau

- Bod yn ymwybodol o'n fframwaith rheoli casgliadau a chyflawni eu gwaith mewn modd nad yw'n peryglu gofal a rheoli'r casgliadau.
- Cyfrannu at hyrwyddo pwysigrwydd gofal a rheoli casgliadau i ddefnyddwyr eu gwasanaethau.

7. Trosolwg o Bolisiau Ategol

Mae casgliad o bolisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â meysydd penodol o reoli casgliadau yn berthnasol i weithredu'r polisi hwn.

7.1 Polisi Datblygu'r Casgliad

Nod y polisi hwn yw pennu polisiau a chanllawiau ar gyfer datblygu'n casgliadau a rhoi manylion y polisi ar gyfer caffael a gwaredu eitemau sy'n rhan o'n casgliadau. Mae'n amlinellu'r amgylchiadau pryd y byddwn yn caffael a gwaredu gwrthrychau a sbesimenau, yn ogystal â'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio i wneud hyn.

7.2 Mynediad a Defnydd

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut y byddwn yn sicrhau bod modd cael gafael ar y casgliadau hygyrch a bod modd i bawb eu defnyddio o fewn cyfyngiadau rhesymol adnoddau, cadwraeth a diogelwch. Gall gwybodaeth am gasgliadau gynnwys gwybodaeth ategol, gan gynnwys ffotograffau ac unrhyw gyfrwng digidol arall. Mae'r polisi'n cynnwys atodiadau sy'n rhoi manylion ein polisi ar samplu eitemau'r casgliad mewn ffordd ddinistriol, gan gynnwys astudiaethau seiliedig ar DNA.

7.3 Gofal a Chadwraeth

Mae'r polisi hwn yn dangos sut y byddwn yn gofalu am y casgliadau gan ddefnyddio cyfuniad o gadwraeth ataliol ac ymyrrol sydd â'r nod o sicrhau gwarchodaeth a'u gwneud mor hygyrch â phosibl.

7.4 Gwybodaeth am Gasgliadau

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut fydd yr Amgueddfa'n cynnal safonau proffesiynol o ran dogfennau a gwybodaeth am gasgliadau, gan gyrraedd y safonau uchaf posibl. Mae'n dangos sut y byddwn yn cryfhau diogelwch y casgliadau trwy gadw gwybodaeth gywir amdanynt a sut y byddwn yn gwella atebolrwydd am gasgliadau a gwybodaeth amdanynt.

7.5 Benthyciadau Allan

Nod y polisi hwn yw sicrhau ein bod ni'n benthycy'n gwrthrychau neu sbesimenau i amrywiaeth eang o gyrrff a sefydliadau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu defnyddio gymaint â phosibl, a hynny ers lles pawb.

7.6 Benthyciadau i Mewn

Nod y polisi hwn yw sicrhau, wrth fenthycy gwrthrychau neu sbesimenau, eu bod nhw'n cael eu defnyddio'n briodol er budd pawb. Polisi'r Amgueddfa yw derbyn eitemau newydd fel benthyciadau i mewn at ddiben arddangos neu ymchwil yn unig.

7.7 Gweddillion Dynol

Roedd y rhain yn bobl fyw ar un adeg, felly byddwn ni'n gofalu amdanynt mewn modd diwylliannol parchus, a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer gwaith ymchwil, dysgu ac arddangosfeydd.

8. Ystyriaethau Moesegol

Rhoddir casgliadau yng ngofal amgueddfeydd, sy'n eu cadw er budd y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Felly, mae ganddynt gyfrifoldeb i weithredu er lles pennaf y cyhoedd o ran stiwardiaeth y casgliadau hyn. Mae'r angen i amgueddfeydd ymddwyn yn foesegol wrth wraidd yr egwyddor hon, ac mae saith egwyddor yr Arglwydd Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, a welir isod, lawn mor berthnasol i'r rhai sy'n gweithio mewn amgueddfeydd ag unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall; maent

hefyd yn berthnasol i'r rhai sy'n gwasanaethu ar gyrff llywodraethu amgueddfeydd. Dyma'r saith egwyddor:

- **Anhunanoldeb** - dylid gwneud pob penderfyniad er budd y cyhoedd
- **Uniondeb** - ni ddylai unigolion roi eu hunain mewn sefyllfa o rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i gyrff allanol a allai beryglu eu perfformiad ar ran yr Amgueddfa
- **Gwrthrychedd** - dylid gwneud pob penderfyniad yn ôl haeddiant
- **Atebolrwydd** - dylai unigolion fod yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd
- **Natur agored** - dylai unigolion fod yn agored ynglŷn â phenderfyniadau a'r camau a gymerir
- **Gonestrwydd** - dylid datgan unrhyw fuddiannau personol a datrys unrhyw wrthdaro, a hynny er budd y cyhoedd
- **Arweiniad** - dylai unigolion hyrwyddo'r egwyddorion hyn trwy ddangos arweiniad ac esiampl i eraill

Disgwylir i weithwyr cyflogedig yr Amgueddfa fod yn ymwybodol o God Moesegol Cymdeithas yr Amgueddfeydd a'r codau a chanllawiau moesegol sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol, ynghyd â'r safonau proffesiynol sy'n berthnasol i'w meysydd nhw, fel y'u cyhoeddwyd gan gymdeithasau a sefydliadau aelodaeth proffesiynol ag enw da.

Ni chaiff staff yr Amgueddfa, aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a phwyllgorau cynghori eraill, gwirfoddolwyr, internau, myfyrwyr ac ati gadw casgliadau personol yng nghyfleusterau'r Amgueddfa. Yr unig eithriad i hyn fydd casgliadau o lyfrau personol a ddefnyddir at ddibenion gwaith a chasgliadau personol a ystyrir yn rhesymol fel rhai sydd y tu allan i gwmpas unigolion yn casglu ar ran yr Amgueddfa.

Ni chewch ddod â chasgliadau wedi'u caffael neu eu meddu yn groes i ofynion cyfreithiol i gyfleusterau'r Amgueddfa.

Ni ddylai staff brisio na rhoi gwerthusiadau'r farchnad ar gasgliadau neu eitemau, heblaw at ddibenion swyddogol yr Amgueddfa.

Dim ond ar gyfer gweithgareddau wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol y gellir defnyddio'n holl adnoddau, gan gynnwys casgliadau, data, cyfleusterau, cyfarpar a phersonél.

9. Deddfwriaeth a Chanllawiau

Mae'r deddfau a'r rheoliadau cenedlaethol a rhyngwladol y mae Amgueddfa Cymru'n rhoi sylw dyledus iddynt wrth weithredu Polisiâu Rheoli Casgliadau, wedi'u rhestru isod.

9.1 Cenedlaethol (Cymru a gwledydd Prydain):

Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012
Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002
Deddf Hawlfraint 1911, 1956
Rheoliadau Hawlfraint a Hawliau Perthnasol 2003
Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988
Deddf Hawlfraint (Pobl â Nam ar eu Golwg) 2002
Deddf Diogelu Data (1998)
Deddf Prynu a Gwerthu Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (diwygiad)
Deddf (Mewnforio ac Allforio) Rhywogaethau mewn Perygl, 1976
Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
Deddf Cydraddoldeb 2006
Deddf Rhagofalon Tân 1971
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018
Deddf Llywodraeth Cymru 1998
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
Deddf Hawliau Dynol 1998
Deddf Meinweoedd Dynol 2004
Deddf Pwerau Mewnforio, Allforio a Thollau (Amddiffyn), 1939
Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999
Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n Ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004
Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
Deddf Llongau Masnach, 1894
Deddf Llongau Masnach, 1995
Deddf Treftadaeth Genedlaethol, 1980
Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992
Rheoliadau Protocol (Cydymffurfio) Nagoya 2015
Deddf Diogelu Llongdrylliadau, 1973
Deddf Gwarchod Gweddillion Milwrol 1986
Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (diwygiad)
Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006
Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995
Rheoliadau Dychwelyd Gwrthrychau Diwylliannol, 1994
Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
Deddf Trysor, 1996 [Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon]
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981: gan gynnwys atodlenni diweddar

9.2 Rhyngwladol:

Cyfarwyddeb Rhif 93/7/EEC Cyngor y Gymuned Ewropeaidd ar ddychwelyd gwrthrychau diwylliannol a gymerwyd yn anghyfreithlon o dir aelod-wladwriaethau Y Confensiwn Ewropeaidd ar Ddiogelu Treftadaeth Archaeolegol, 1973
Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, CBD, 1992
Confensiwn UNESCO ar y Fasnach Rhyngwladol mewn Rhywogaethau o Fflora a Ffawna Gwyllt sydd Mewn Perygl (CITES), 1975
Deddf Amddiffyn Beddi ac Ail-wladoli Americanwyr Brodorol yr Unol Daleithiau, 1990
Confensiwn a Phrotocol UNESCO ar Amddiffyn Eiddo Diwylliannol mewn Gwrthdaro

Arfog (Confensiwn yr Hâg), 1954 ac ail brotocol 1999
Confensiwn UNESCO ynghylch Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd, 1972
Confensiwn UNESCO ar Ddulliau Gwahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon, 1970
Egwyddorion a Chanllawiau Comisiwn Hawliau Dynol UNESCO er Amddiffyn Treftadaeth Pobloedd Brodorol, 1997
Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anghyffwrdd, 2003
Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Danddwr, 2001
Confensiwn UNIDROIT ar Ddychwelyd Gwrthrychau Diwylliannol a Ddygwyd neu a Allforiwyd yn Anghyfreithlon, 1995
Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol y Cenhedloedd Unedig, 1992
Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobloedd Brodorol (Datganiad Maatatua), 1993

Protocol Nagoya y Cenhedloedd Unedig ar Fynediad at Adnoddau Genetig a Rhannu'r Buddion a Geir yn sgil eu Defnyddio yn Deg a Chyfiawn (2014)
Cyngres Archaeoleg y Byd: Cytundeb Vermilion ar Olion Dynol, 1989

9.3 Canllawiau aneddfwriaethol:

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Deddf Trysor, 1996 Canllaw ar gyfer Curaduron Amgueddfeydd ac Archaeolegwyr Llywodraeth Leol, 1997
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Canllawiau Dyfalwch Dyledus wrth Gasglu a Benthg Deunyddiau Diwylliannol: Herio'r Fasnach Anghyfreithlon, 2005
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Canllawiau wrth Ofalu am Olion Dynol mewn Amgueddfeydd, 2005
Yr Adran Dros Dreftadaeth Genedlaethol: Dulliau Gweithredu Deddf Trysor 1996 (Cymru a Lloegr), 1997
Cod Moeseg Proffesiynol ICOM, 1986 (cyhoeddwyd gyda Statudau ICOM 1990)
Cod Rhyngwladol y Gyfundrefn Enwi Botanegol, 1988
Cod Rhyngwladol y Gyfundrefn Enwi Planhigion Gerddi, 1969
Cod Rhyngwladol y Gyfundrefn Enwi Sŵolegol, 1985
Grŵp Ethnograffwyr Amgueddfeydd: Canllawiau ar Reoli Olion Dynol, 1991 (adolygwyd 1994)
Cyfres Safonau Comisiwn yr Amgueddfeydd ac Oriolau, 1992-1998
Cynllun Cofrestru Comisiwn yr Amgueddfeydd ac Oriolau ar gyfer Amgueddfeydd ac Oriolau yn y Deyrnas Unedig, 1995
Cod Ymddygiad Sefydliad yr Amgueddfeydd ar gyfer Cyrff Llywodraethu, 1994
Cod Ymddygiad Sefydliad yr Amgueddfeydd ar gyfer Pobl sy'n Gweithio mewn Amgueddfeydd, 1996
Casgliadau ar gyfer y Dyfodol. Adroddiad Ymchwiliad Sefydliad yr Amgueddfeydd, 2005
Canllawiau Moesegol Sefydliad yr Amgueddfeydd: 1. Caffael, 1996
Canllawiau Moesegol Sefydliad yr Amgueddfeydd: 2. Gwaredu, 1996
Canllawiau Moesegol Sefydliad yr Amgueddfeydd, 2002
Cynllun Achredu Amgueddfeydd Cyngor yr Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai, 2004

Cynllun Indemniad y Llywodraeth Cyngor yr Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai, 2004

Meincnodau wrth Ofalu am Gasgliadau ar gyfer Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd Cyngor yr Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai, 2002

Cynhadledd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol: Ysbeilio Gwaith Celf yn ystod Cyfnod yr Holocost a'r Ail Ryfel Byd – Datganiad ar Egwyddorion ac Argymhellion, 1998

Cynhadledd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol: Ysbeilio Gwaith Celf yn ystod Cyfnod yr Holocost a'r Ail Ryfel Byd – Adroddiad Interim ar Ymchwil a Gwybodaeth, 2000

Cynhadledd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol: Gormod o Bethau? Gwaredu o Amgueddfeydd, 2003

Cyfarwyddeb Wybodaeth y Sector Cyhoeddus: datganiad Tasg Gyhoeddus Adroddiad i'r Pwyllgor Ymchwil ar Gyrrff Cyhoeddus yn Gwerthu Gwaith Celf, 1964

Cymdeithas yr Hynafiaethwyr: Datganiad ar Egwyddorion Henebion Cludadwy, 1993

Cymdeithas Archaeolegwyr yr Amgueddfeydd: Polisi ar Henebion Cludadwy, 1999

9.4 Strategaethau'r Amgueddfa a pholisïau eraill sy'n berthnasol i reoli'r casgliadau

Strategaeth Datblygu Cynulleidfa

Strategaeth Datblygu'r Casgliad

Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol

Strategaeth Dehongli

Ein Datganiad Gorchwyl Cyhoeddus

Polisi Gwarchod Data

Polisi Rheoli Asedau Digidol

Polisi Gwarchod Data

Strategaeth Arddangosfeydd

Polisi Rhyddid Gwybodaeth

Polisi Llywodraethu Gwybodaeth

Polisi Hawliau Eiddo Deallusol

Strategaeth Dehongli

Strategaeth Dysgu

Polisi Rheoli Cofnodion

Canllawiau Arddangos yr Amgueddfa

9.5 Cyhoeddiadau allweddol eraill

Archive Collection Policy Statements: checklist of suggested contents, The National Archives, 2004.

Code of Practice on Archives for Museums and Galleries in the United Kingdom, Standing Conference on Archives in Museums, 2002.

McLeod, J. a Hare, C. 2006. *How to Manage Records in the e-Environment*. Routledge.

Elliot, P. 2002. *Managing Archive Collections in Museums*. MDA.

Standard for Record Repositories, The National Archives, 2004.

The National Trust Manual of Housekeeping: the care of collections in historic houses open to the public, Butterworth-Heinemann, 2005.

Accreditation Scheme for Museums in the United Kingdom: Accreditation Standard, Arts Council for England, 2014.

International Council of Museums (ICOM) *Code of Ethics for Museums*, 2013.

- Code of Ethics for Museums*, Cymdeithas yr Amgueddfeydd, 2014.
- SPECTRUM: The UK Museum Documentation Standard, Version 4, Collections Trust.
- Acquisition – Guidance on the Ethics and Practicalities of Acquisition, Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2004.
- Archaeological Archives: a guide to best practice in creation, compilation, transfer and curation*, D. Brown, Archaeological Archives Forum, 2007.
- Collections for the Future*, Cymdeithas yr Amgueddfeydd, 2005.
- Combating Illicit Trade: due diligence guidelines for museums, libraries and archives when acquiring cultural material*, DCMS, 2005.
- Making Collections Effective*, Cymdeithas yr Amgueddfeydd, 2007.
- UK Export Licensing for Cultural Goods – procedures and guidance for exporters of works of art and other cultural goods*, DCMS, 1997.
- BS ISO 14721, Space data and information transfer systems – open archival information systems – reference model.
- BS ISO 15836, Information and documentation – the Dublin Core metadata element set.
- Descriptive Cataloging of Rare Materials (Books), Library of Congress, 2007.
- ISAAR (CPF): International Standard Archival Authority Record for Corporate Bodies, Persons and Families, International Council on Archives, 2003.
- ISAD (G): General International Standard Archival Description, International Council on Archives, 1999.
- Dewey Decimal Classification System (DDC), Online Computer Library Center (OCLC)
- UK Archival Thesaurus (UKAT)
- UNESCO Thesaurus: a structured list of descriptors for indexing and retrieving literature in the fields of education, science, social and human science, culture, communication and information, UNESCO, 1995.
- BS ISO 15489-1:2001, Information and documentation – Records Management – Part 1: General.
- PD ISO/TR 15489-2, Information and documentation – Records Management – Part 2: Guidelines.
- Ethical guidelines 4 – Access, Cymdeithas yr Amgueddfeydd.
- BS 8300, Design of buildings and their approaches to meet the needs of disabled people – Code of Practice.
- BS 5454, Recommendations for the storage and exhibition of archival documents.
- PAS 197:2009 Code of practice for cultural collections management.
- PAS 198:2012 Specification for managing environmental conditions for cultural collections.
- Standard Facilities Report, UK Registrars' Group.
- Standard Facilities Report Security Supplement, UK Registrars' Group.
- UK Courier Guidelines, UK Registrars' Group.
- Display Case supplement, UK Registrars' Group.
- Cassar, M. 1995. *Environmental Management: guidelines for museums and galleries*. Routledge.
- Standards in the museum care series, Collections Link.
- BS 4971:2002, Repair and allied processes for the conservation of documents – Recommendations.